Dyma lun o un math o jwg Tobi, sef jwg laeth ar ffurf merch Gymreig.



*Lllun 6 , Jwg Tobi Cymreig*

Dim ond braslun o'r llestri yw hwn.

Mae'n amhosibl sôn am y casgliad i gyd, fel mae'n amhosibl i minnau eu cadw i gyd, erbyn hyn. Y trefniant



*Llun 7*

rhyngom ni oedd fod rhaid gwerthu rhai. Mae rhan o'r casgliad gan ein dwy ferch. Dwg llawer ohonynt atgofion am ein tripiau i lawer dinas a thref yn Lloegr, yn bennaf am mai yno roeddynt wedi cartrefu ers blynyddoedd. Roedd ymwelwyr wedi eu prynu fel anrhegion i fynd yn ôl adref ar ôl treulio gwyliau yng Nghymru.

Daeth llawer o ymwelwyr, ynghyd ag aelodau o Sefydliadau, i'n hen gartref i weld y casgliad ond erbyn hyn, gwaetha'r modd nid oes lle yn fy nghartref newydd i'w harddangos. Byddaf yn dangos ac yn gwerthu rhai o'r trysorau yn y Ffair Lyfrau nesaf a gynhelir gan Gymdeithas Bob Owen.

Os oes mwy o wybodaeth gan aelodau am ddarnau tebyg gadewch i'r golygydd wybod.

# Llythyr at y Golygydd

Annwyl Mr Golygydd,

Nodiadau ar lun olew James Owen (1654-1706) sydd ymhlith eraill yn festri Capel Swan Hill, Amwythig.

Mae'r celfi a'r lluniau sydd ynghadw mewn festrïoedd capel yn amrywio. Credaf fod y llun uchod yn un o'r rhai cyntaf o Gymro amlwg.

Gwelais ambell festri yn gyforiog o lestri arian y cymun, ac ambell gasgliad a allai addurno'r byrddau ar ddiwrnod dathlu. A beth am y llyfrgelloedd mawr a mân, sydd yno o hyd, neu wedi eu halltudio i ryw gornel anghysbell. Da gweld fod *Y Casglwr* yn rhoi sylw i'r cyfryw yn ddiweddar.

A dod yn nes adre, casgliad diddorol felly, sydd yng Nghapel Swan Hill. Ymhlith eraill y mae pedwar llun olew: y cyntaf o Francis Tallents (1613-1709) – llun olew mewn ffrâm oval, gweler y copi amgaeëdig. Ar awgrym y Piwritan Richard Baxter daeth Tallents i St. Mary's, yr Amwythig yn y flwyddyn 1653, nes i'r Ymneilltuwyr gael eu troi allan yn 1660-2.



*James Owen (1654–1706)*

Dyma enwau'r tri arall: Richard Heath, John Bryan a'r Cymro, James Owen o Feidryn. Perthynai i James Howell, y llythyrwr, bu'n gaplan yn ystod y Rhyfeloedd Cartref, yna yn gaplan i Thomas Baker AS, yn Sweeney Hall, ger Croesoswallt lle bu'n pregethu i'r Ymneilltuwyr cynnar. Wedi'r adferiad, 1662, symudodd ei academi i'r Amwythig hyd ei farw yn y flwyddyn 1706.

Mae llun F. Tallents wedi ei lanhau'n ddiweddar. Mae trefniadau mewn llaw i lanhau llun James Owen y flwyddyn hon, os yn bosibl.

Trevor Watts

(am J. Owen, gweler *Y Bywgraffiadur Cymreig*, Hydref 1940.)

*(mwy ar dud. 24)*


## Ar Werth

*Gwasanaeth Mair*. Gol. Brynley F. Roberts, 1961.

*Gemau Gwyrfai*. Owen Williams, 1904.

*Geiriadur Cymreig, Cymraeg*. Cynddelw, 1868.

*Cilcain a'r amgylchoedd a'r Olygfa o ben mynydd y dref*. Thos. Williams, Trebor Mai, 1896 (cloriau yn eisiau).

*Eisteddfodau Môn*, llyfrynnau 1910, 1913, 1971-2, 1974-5.

*Welsh Unitarians as Schoolmasters* by David Evans (pamffled).

*Islwyn's English poems*, ed by Hannah Williams & Tom Evans, 1913.

*Wanderings in Wales*. W. A. Poucher, 1949.

*The Red Dragon*, The National Magazine for Wales, ed by Charles Wilkins. 5 cyfrol wedi'u rhwymo, 1882-3, 1885.

Ol-rifynnau cynnar o'r cylchgrawn *Golwg*

Mari Ellis, Aberystwyth. (01970) 617171.

## Yn Eisiau

*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfodau Cenedlaethol Cymru* 1905, 1909, 1911 I 1918. Cysyllter â Glyn Jenkins ar (01432) 277590.